# 24 Gwaenysgor





## Bryn a choedlannau, golygfeydd eang a threftadaeth ddiwydiannol

**Pellter:** 6.4km / 4 milltir

**Amser:** Caniatáu 2.5 - 3 awr

**Parcio a chychwyn:** Maes parcio golygfan Gwaunysgor

**Cyf. Grid:** SJ075819, Map OS Explorer 265

**Graddfa:** Cymedrol (i fyny ac i lawr)

**Cyfleusterau:** The Eagle and Child, Gwaunysgor; siopau a thafarnau ym mhentref Garthmelyd

## Hillside and woodland with wide views and industrial heritage

**Distance:** 6.4km / 4 miles

**Time:** 2.5 - 3 hours

**Parking and start:** Gwaenysgor Viewpoint car park

**Grid ref:** SJ075819, Explorer map 265

**Grade:** Moderate (undulating)

**Facilities:** The Eagle and Child, Gwaenysgor; shops and pubs in Meliden






## Y Daith Gerdded

**1.** O'r maes parcio, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd tua Gwaunysgor. Ewch heibio'r llyn. Ar ôl 100m ewch i'r dde dros y gamfa wrth y giât, arwydd 'Bryn Prestatyn'. Dilynwch y ffens sy ar y dde a dros y cae i'r gamfa. Croesi'r gamfa a cherdded i'r hanner-chwith dros y cae nesaf. Ewch dros gamfa arall gan ddod allan wrth hen ffynnon y pentref oedd yn gyflenwad dŵr tan ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Trowch i'r dde ar hyd y lôn las. Ewch drwy'r giât mochyn a dilyn y llwybr llydan o'ch blaen drwy'r eithin a'r llwyni gan gyrraedd cae. Ewch ymlaen dros y cae a dros gamfa i Fryn Prestatyn.

**2.** Trowch i'r chwith i Lwybr Clawdd Offa (LlCO) sydd ag arwydd y fesen wen. Ewch ymlaen am ryw 500m, gan ddisgyn yn serth.Ymlaen i'r chwith ar y gyffordd-T ar ôl y grisiau ac yna ymlaen am tua 500m, gan gerdded wrth ochr ffens gadwyn ac edrych dros y chwarel, yna drwy'r coed. Cadw yn syth ymlaen ar y gyffordd nesaf, gan ddilyn llwybr arwyddedig 'Bryniau'. Ewch drwy'r giât mochyn a thueddu i'r chwith ar y llwybr, gan ddal i ddilyn LLCO. Ar dir mwy agored, cadwch i'r chwith ar lwybr amlwg gan gyrraedd giât mochyn wrth y dreif. Trowch i'r chwith i fyny'r dreif ac ymuno â'r lôn dawel. Trowch i'r chwith ac yn union wedyn i'r dde ar y gyffordd wrth Laburnum Cottage gan adael LLCO.

**3.** Cerddwch ar y ffordd am 300m. Gyferbyn â Mount House, ewch drwy giât mochyn/camfa wal ar y llaw dde, arwyddedig 'Llwybr Prestatyn-Dyserth'. Wrth arwydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ewch ar y llwybr arwyddedig 'Taith Gylch Dyserth'. Cerddwch ar ochr chwith y gorlan bren ac yna i'r dde gan ddilyn yr arwyddion. Ymlaen o dan y gwifrau sy uwchben am ychydig dros 100m yna troi i'r dde ac i lawr y grisiau. Ar y gwaelod, daliwch yn syth ymlaen gan anwybyddu'r llwybr i'r dde.

**4.** Ewch drwy'r giât mochyn a throi i'r dde ar ôl ychydig o fetrau i ymuno â llwybr llydan caregog, sef llwybr Prestatyn - Dyserth. Dilynwch yr hen reilffordd, gan fynd heibio sied nwyddau Garthmelyd, am tua 1km. Ewch drwy'r rhwystrau





# Gwaenysgor

AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB

wrth y giat a chroesi'r bont. Anwybyddwch y llwybr sy ar y llaw dde. Wrth y clwb golff, trowch i'r dde a dros y cwrs golff.

**5.** Ewch drwy'r giât mochyn ac i fyny'r grisiau brics. Trowch i'r dde ar hyd y lôn darmac a drwy'r giât mochyn nesaf. Ewch i fyny ar y llwybr sy ar y llaw chwith, arwyddedig 'Bryn Prestatyn'. Ymlaen ar i fyny gan fynd heibio Ogof y Pysgod ar y llaw chwith. Trowch i'r dde ar gyffordd y llwybrau a mynd yn syth ymlaen. Ar y gyffordd nesaf, trowch i'r dde eto, gan ymuno â LLCO am ychydig. Ar ôl rhyw 50m, trowch i'r chwith ar yr arwydd nesaf gan adael LLCO a dringo drwy'r eithin ac ar lwybr sy'n llai amlwg. Croeswch y gamfa a mynd ymlaen ar draws dau gae, gan groesi'r ail gamfa a chadw'r ffens ar eich llaw dde. Croeswch y gamfa nesaf a dilyn ochr dde'r cae i fynd drwy'r bwlch yn y gwrych gyferbyn. Yn y cae nesaf, anelwch tua'r ysgubor ac yna ewch i'r hanner-chwith i groesi camfa wrth y giât. Gan gadw'r ffens ar eich llaw chwith, croeswch gamfa arall a mynd ymlaen i lwybr caregog (anwybyddu'r llwybr ar eich llaw chwith). Ewch drwy'r giât mochyn i'r grid gwartheg nesaf a dilyn y ffordd heibio'r Eagle and Child. Ar y gyffordd nesaf, trowch i'r chwith a dilyn y briffordd yn ôl i'r maes parcio.

## The Walk

**1.** Turn right out of the car park and follow the road towards Gwaenysgor. Go past the Pond and after 100m go right over a stile by a gate, sign 'Bryn Prestatyn'. Follow the left-hand fenceline across the field to a stile. Cross the stile and walk half-right across next field. Go over another stile, emerging by the old village well that was the main source of water until after World War 1. Turn right along the grassy lane. Go through a kissing gate and follow clear path ahead through gorse and scrub, eventually emerging into an open field. Continue ahead across field then go over a stile onto Prestatyn Hillside (stunning views along the coast and across to Snowdonia).

**2.** Turn left onto Offa's Dyke Path (ODP), marked with white acorns. Continue for about 500m, descending steeply. Continue left at T-junction beyond steps then continue for about 500m, eventually walking beside a chain link fence overlooking a quarry then through woodland. Keep ahead at next junction, following path signed 'Bryniau'. Go through kissing gate and bear left along path, still following ODP. At more open ground keep left on obvious path eventually reaching a kissing gate by a drive. Turn left up drive to join a quiet lane. Turn left, then immediately right at road junction by Laburnum Cottage, leaving ODP.

**3.** Walk along the road for 300m. Opposite Mount House go through a kissing gate/wall stile on the right, signed 'Prestatyn-Dyserth Way'. At the National Trust sign take the path right, signed Dyserth Circular Walk. Walk left of the wooden pen and then right, following the waymarkers. Continue underneath overhead cables for just over 100m then turn right and walk down steps. At the bottom continue ahead, ignoring path right.

**4.** Go through kissing gate then turn right after a few metres to join a stony track, the Prestatyn - Dyserth Way. Follow this disused railway track, passing Meliden Goods Shed, for about 1km, going through barriers by a gate and over a bridge, ignoring two paths right. By the golf clubhouse turn right across the golf course.

**5.** Go through kissing gate and up brick steps. Turn right along a tarmac lane and through another kissing gate. Take left-hand path uphill, signed Prestatyn Hillside. Continue uphill passing Fish Cave on the left. Turn right at path junction and continue ahead. At next junction turn right again, briefly joining ODP. After 50m turn left at next waymarker, leaving ODP, going uphill through gorse along a less distinct path. Cross stile and continue across two fields, crossing a second stile and keeping the fence on right. Cross next stile and follow right-hand field edge to go through gap in the hedge opposite. In next field head towards the barn then half left to cross a stile next to a gate. Follow left-hand fenceline to cross a further stile then continue ahead up a stony track (ignoring path left). Go through a kissing gate next to a cattle grid and follow the road past the pub. At next junction turn left and follow main road back to the car park.

*Adeiladwyd **The Eagle and Child** yn 1831. Daw'r enw o chwedl ganoloesol am uchelwr a anogodd ei wraig i fabwysiadu ei fab anghyfreithlon gan ddweud ei fod wedi dod o hyd iddo mewn nyth eryr ar ei stad. Mae'n fan poblogaidd am fwyd gydol y flwyddyn erbyn hyn. Ffoniwch: 01745 856391 am yr oriau agor.*

***The Eagle and Child** dates from 1831 and takes its name from the legend of a medieval nobleman who persuaded his wife to adopt his illegitimate child, alleging it had been found in an eagle's nest on his estate. It is now a popular destination for refreshments throughout the year. For information on opening times tel: 01745 856391*



### Gwaunysgor

*Mae cofnod o'r pentref a'r eglwys yn The Domesday Book. Efallai bod yr eglwys wreiddiol o'r 12fed ganrif ond mae'r rhan fwyaf o'r adeilad heddiw o'r canoloesoedd hwyr*

### Coed yr Esgob a Bryn Prestatyn

*Mae blodau gwyllt fel clychau'r eos, gruw a phengaled yn ffynnu ar y pridd calchog, tenau gan ddenu gloÿnnod byw a thrychfilod. Mae'r ferywen, sy'n brin ac yn un o dair coniffer yn unig sy'n gynhenid i Ynys Prydain, yn tyfu yma. Am fod y tir yn rhy serth i'w drin, fe oroesodd yr hen goedlan dderw ar y llethrau isaf. Ffynna'r rhedyn ar y tir llaith cysgodol, ac yn y gwanwyn mae'r ddaear yn garped o flodau gwyllt fel clychau'r gog a chraf.*

### Gwaenysgor

*This ancient village and church is mentioned in the Domesday Book. The present church may have origins in the 12th century but dates mainly from the later medieval period.*

### Bishop's Wood and Prestatyn Hillside

*Wildflowers like harebell, wild thyme and thistle-like knapweed thrive on the thin limestone soils on the hillside and these attract numerous butterflies and insects. Rare juniper, one of only three conifers native to Britain, also grows here. The ancient oak woodland on the lower slopes survived tree-clearing as the ground was too steep for cultivation. Ferns thrive in the damp, shade and in spring the ground is carpeted with flowers, particularly bluebells and wild garlic.*

